



Capel y Tabernacl, Tachwedd 26ain, 2017



Mae croeso arbennig i ymwelwyr a ffrindiau sydd wedi ymuno â ni. Arweinir yr oedfa heddiw gan Gwerfyl Morse a'r Parchg Gethin Rhys. Yn cyfeilio mae Rhiannon Humphreys. Cynhelir ein cyfarfod blynyddol am amser byr ar ddiwedd yr oedfa – byddwch yn iawn i gyrraedd côr y 'steddfod prynhawn 'ma!

Y SULIAU NESAF

Rhagfyr 3ydd – Sul Pentref Creigiau.

Rhagfyr 10fed – Y Parchg Aled Edwards gyda Ann Griffiths

Rhagfyr 17 – Cwrdd Nadolig Plant yr Ysgol Sul a'r Twmiaid

Rhagfyr 24 – Bore Cwrdd Carolau a cherddi i'r teulu cyfan yn y bore. Plîs dewch ag ambell hen anrheg gyda chi, i'w rhoi i elusen a chreu lle yn eich cartref – rhag ofn y daw y dyn mewn coch yn ystod y nos!

ac am 11 y Nos, oedfa pawb i ddod a'i eitem..... Rhagfyr

Rhagfyr 31 – Keith Rowlands a Geraint Wyn
Ionawr 7 2018 - Oedfa Pentref Pentyrch

Ionawr 14 – Eirian

Ionawr 21 – Sul i'r Teulu

Ionawr 28ain – Y Parchg. Gethin Rhys

Chwefror 4ydd – oedfa bentref Tonteg a Phentre'r Eglwys

Llongyfarchiadau gwresog a diolch i'r Twmiaid am drefnu bwyd wedi'r oedfa Sul diwethaf a noson hwyliog ym Mwyty Indiaah, Pontyclun. Codwyd tua £500 tuag at Bangla Cymru. Gwych!



ELUSENNAU 2017

CASGLIAD ARBENNIG

Dros fisoedd Tachwedd a Rhagfyr, fe fydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn casglu dillad a dillad isaf yn benodol ar gyfer pobl ifanc 13–16 oed a chanddynt anghenion arbennig ac sy'n derbyn gofal ysbeidiol. Os medrwch gyfrannu i'r casgliad arbennig hwn, gofynnwn i chi labelu'r bagiau'n glir – **merch/bachgen** ac **oedran** – cyn eu gadael yn y lle arferol yn llofft y capel. Bydd hyn yn osgoi cymysgu gyda'r casgliad ar gyfer Adref.

TALEBAU NADOLIG

Eleni eto, ar drothwy'r Nadolig, byddwn yn casglu arian ar gyfer talebau i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Bydd Gill Rees neu Eleri Jones yn filch iawn i dderbyn eich cyfraniadau.

PEDAL POWER

Nod Pedal Power ydy cymell a galluogi oedolion a phlant o bob oed a gallu i fwynhau manteision seiclo dan amodau diogel a phlesurus. Maen **nhw'n** asesu pobl gydag anghenion arbennig corfforol neu feddyliol er mwyn sicrhau beiciau addas, **sy'n** golygu eu bod yn medru **mwynhau'r** profiad fel pawb arall. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i grwpiau a theuluoedd gael rha **nnu'r** un gweithgareddau.

DEFNYDDIWC H YR AML ENNI BROWN I DDANGOS EICH CEFNOGAETH

Mae Ann Rees yn gwerthu cardiau Nadolig Cymorth Cristnogol



Rhagfyr 16

Ffair Nadolig y Pentref

Cynhelir y Ffair yn Neuadd y Pentref a Chanolfan y Capel ar Sadwrn 16 Rhagfyr o 10 y bore i 2 y pñawn. Mae Caroline Rees yn apelio am gymorth ar y dydd. Plis cysylltwch ar carolinerees2@hotmail.com
Yn y nos, noson o ganu nadoligaidd Cymraeg gyda HuwM a chast o offerynwyr yn y Carpenters

Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, www.tabernacl.org neu Gwilym Huws: 07710 237327 gehpengwern@yahoo.co.uk/ Cyhoeddiadau at geraintrees@hotmail.com



Cofiwch y gallwch adael eitemau i'r cartref a dillad i Adref yn llofft y capel. Diolch.

BANC BWYD

Bydd criw ohonom yn helpu aelodau Bethel Pontyclun yn y casgliad yn Tesco Tonysguboriau ddiwedd y mis a dechrau Rhagfyr, a **byddai'n** dda pe gallai fwy ddod i'n helpu. **Mae'r cwmni'n** hwyliog **a'r** amser yn hedfan.

Mae'r angen am Fanc Bwyd yn cynyddu yn yr ardal, a chasgliadau fel hyn yn help mawr i **ddiwallu'r** angen. Yn ogystal â haelioni cyson y cwsmeriaid, mae **Tesco'n** ychwanegu 1/3 o werth y bwyd.

Dyma'r shifftiau sydd ar gael erbyn hyn:

Dydd Iau, Tachwedd 30: 12-2, 2-4

Dydd Gwener, Rhagfyr 1: 12-2, 2-4

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 2: 10-12, 12-2, 2-4

Os gallwch helpu gydag un o'r shifftiau hyn cysylltwch ag Ann Davies:

ann.pentyrch@btinternet.com 02920 891344

Calendr Adfent Sha Nôl

Beth am ymuno gyda Teulu Twm.

Cymrwch focs cardbord ac am y 25 niwrnod nesaf rhowch eitem fwyd yn y bocs fel bo 25 eitem ar gael i fynd at y banc bwyd am y Dolig!

Galle fe gostio llai i chi nag ambell galendr adfent hefyd

Apel Nadolig yr Ysgol Sul

Yn lle Operation Christmas Child, mae'r ysgol Sul yn frwd i ni gefnogi Apêl Santa RhCT i blant lleol anghenus. Gwahoddir chi i ffonio Apel Santa ar 01443 425025 dydd Mawrth i Gwener o 8.30am i 5pm – hyd at Tach 28ain. Cewch enw ac oed plentyn i chi brynu anrheg a'u cyflwyno trwy'r capel neu eboostiwch CustomerServices@rctcbc.gov.uk

